OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1215

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022

RHAN 3

Diwygio rheoliadau domestig

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

9.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2)—

(a) yn y diffiniad o "rheolau marchnata", yn lle ", 75 a 76" rhodder "a 76 o Reoliad (EU) 2013,";

(b) yn y diffiniad o "safonau marchnata penodol", hepgorer "y darperir ar eu cyfer o dan Erthygl 75(1)(b) o Reoliad (EU) 2013".

Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

10.—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 2, hepgorer y rhesi sy'n dechrau ag "Erthyglau 75(2) a (3)".

(**1**) O.S. 2009/1551 (Cy. 151); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/2486 (Cy. 270), O.S. 2013/3270 (Cy. 320) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137).

(**2**) O.S. 2010/1671 (Cy. 158); yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2019/463 (Cy. 111).